Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol 1, 2 a 3 – Sefydliadau Diogel |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol 1 - Gradd 10 - Newydd Gymhwyso/Blwyddyn gyntaf yn ymarfer<br>Gweithiwr Cymdeithasol 2 – Gradd 11<br>Gweithiwr Cymdeithasol 3 - Gradd 12 - Yn amodol ar atgyfnerthu ac o leiaf 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Tîm – Iechyd Meddwl Fforensig a Sefydliadau Diogel |

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Cyfrannu at ddatblygu a darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys poblogaeth amrywiol o garcharorion yng Ngharchar EM y Parc, carcharorion sy'n cael eu rhyddhau o Garchar EM y Parc a sefydliadau diogel eraill ar draws y wlad i fyw ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac i'r rhai sy'n adsefydlu o Garchar EM y Parc i awdurdodau lleol eraill. Cynorthwyo carcharorion ag anghenion cymwys gan hyrwyddo'r safonau uchaf o arfer proffesiynol ac ymyriad.

Bydd eich llwyth achosion yn cynnwys carcharorion ag amrywiaeth eang o anghenion corfforol, gwybyddol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae eich ymyriad wedi'i fwriadu i sicrhau bod y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio atoch mor annibynnol â phosibl a chydlynu'r broses cynllunio gofal.

Byddwch yn mynd ati i hyrwyddo ein 'Model Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau-Gweithio i Gyflawni Canlyniadau'.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Darparu asesiadau gwaith cymdeithasol i garcharorion sydd ag anghenion cymwys (gan gynnwys y rhai sy'n gadael CEF y Parc ac sy'n aros yn yr ardal, y rhai a fydd yn ailsefydlu mewn rhannau eraill o'r DU, yn ogystal â'r rhai sy'n ailsefydlu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o garchardai eraill o bob rhan o'r DU) er mwyn sicrhau eu gweithrediad, annibyniaeth a llesiant mwyaf posibl.
- Defnyddio'r ymchwil fwyaf cyfredol, seiliedig ar dystiolaeth i gynnal asesiadau o anghenion a risg o ansawdd uchel, seiliedig ar gryfderau ac

